

**Arolygiad dan Adran 10  
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gynradd Amlwch  
Pen-y-bonc  
Amlwch  
Ynys Môn  
LL68 9DY**

**Rhif yr Ysgol: 660/2130**

**Dyddiad yr Arolygiad: 7 – 10 Chwefror 2005**

**gan**

**Wil Williams  
WO/67644**

**Dyddiad: 11 Ebrill 2005**

**Dan rif contract Estyn: T/112/04**

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad. Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol roi copïau o'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim i gategorïau penodol o bobl. Hwyrach y caiff ffi heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ei chodi ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Gradd 1** da gyda nodweddion eithriadol
- Gradd 2** nodweddion da a dim diffygion pwysig
- Gradd 3** nodweddion da yn gorbwyso diffygion
- Gradd 4** rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
- Gradd 5** llawer o ddiffygion pwysig

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	1
<b>Crynodeb</b>	2
<b>Argymhellion</b>	7
<b>Safonau</b>	8
Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	11
Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	11
Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	13
Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	15
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	17
Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	17
Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	19
Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	21
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	22
Plant dan bump oed	22
Cymraeg	24
Mathemateg	25
Dylunio a thechnoleg	26
Hanes	27
Addysg grefyddol	28
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	30
<b>Atodiadau</b>	31
A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	31
B Data a dangosyddion yr ysgol	31
C Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	32
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad	33
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	33



## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Ysgol Gynradd naturiol ddwyieithog yw Ysgol Gynradd Amlwch. Saif yr ysgol ar gyrion tref Amlwch a gwasanaetha'r dref a'r ardaloedd ffiniol.
2. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o 3-11 oed. Mae 293 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol ynghyd â 30 o blant meithrin rhan amser. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn niferoedd y disgyblion yn ystod y pedair blwyddyn ddiwethaf.
3. Saesneg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 70% o'r disgyblion, ond disgwylir iddynt fod yn rhugl yn y Gymraeg erbyn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 [CA2].
4. Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r flwyddyn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod allu lawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol.
5. Mae'r ardal yn ddifreintiedig ac yn rhan o gynllun cymorth 'Cymunedau'n Gyntaf.' Mae oddeutu 19% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, sy'n gymharus â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 16% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig [AAA], sy'n ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae 17 ohonynt â datganiad o AAA.
6. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 1999. Ers hynny, rhoddwyd sylw i nifer o agweddau cwricwlaidd yn yr ysgol a datblygwyd y trefniadau monitro ac arfarnu ymhellach. Yn ystod yr arolygiad roedd 43 o ddisgyblion yn llai yn yr ysgol nag oedd yng nghyfnod yr arolygiad blaenorol. Penodwyd y pennaeth presennol i swydd ym Medi 1996.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Mae'r prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer y cyfnod 2004 – 2005 yn cynnwys:
  - Ail-greu portffolio o waith disgyblion ar gyfer iaith, gwyddoniaeth a mathemateg;
  - Diwygio'r cynlluniau celf ac addysg grefyddol;
  - Datblygu parc Lôn Goch mewn cydweithrediad â Cymunedau'n Gyntaf;
  - Cynyddu'r cyflenwad a'r defnydd o'r byrddau gwyn rhyngweithiol;

## Crynodeb

8. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Dengys tystiolaeth yr arolygiad bu'r ysgol yn rhy geidwadol wrth ddyfarnu gradd 2 iddi ei hun yng nghwestiynau allweddol 4 a 7. Dyfarnwyd gradd 1 i'r ddau gwestiwn gan y tîm arolygu.

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

9. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd yr arolygiad
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

### Safonau

10. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
6%	73%	21%	0%	0%

11. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru [LICC] ar gyfer Cymru gyfan o 95% o wersi yn foddhaol neu'n well a 75% yn dda neu'n well.

12. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Meithrin	Derbyn
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 3	Gradd 3
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2	Gradd 2

Datblygiad creadigol	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2	Gradd 2

13. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pynciau	CA1	CA2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 1	Gradd 1
Hanes	Gradd 1	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

14. Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd da yn y medrau allweddol o siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu a defnyddio eu medrau rhifedd. Gwnânt gynnydd rhagorol yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
15. Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol mewn darllen Cymraeg a rhifedd yn radd 2. Mae safonau ysgrifennu yn radd 2 yn CA1 ac yn radd 3 yn CA2. Mae safonau siarad a gwrando Cymraeg yn radd 3 yn y ddau gyfnod allweddol. Mae safonau'r medrau allweddol Saesneg yn CA2 yn radd 2 yn yr holl foddau iaith. Mae'r safonau a gyflawnir mewn TGCh yn y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda nifer o nodweddion rhagorol i'r gwaith.
16. Mae datblygiad llwyddiannus medrau dwyieithog y disgyblion yn un o brif amcanion yr ysgol. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos cynnydd da iawn gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff dwyieithrwydd, ac yn arbennig datblygiad y Gymraeg, ei integreiddio'n effeithiol o fewn holl agweddau ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol.
17. Mae llwyddiant yr ysgol i sicrhau fod disgyblion o bob cefndir cymdeithasol a ieithyddol yn cyrraedd eu potensial yn un o'i nodweddion rhagorol. Darperir cefnogaeth dda i ddisgyblion o'r holl ystod allu.
18. Ar ddiwedd CA1, yn 2004, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol [CC], sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y Gymraeg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r ysgol mewn mathemateg yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.
19. Yn CA2, yn 2004 a 2003, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y CC, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r Saesneg yn sylweddol is na'r perfformiad cenedlaethol yn 2004.

20. Mae'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion ag AAA tuag at gyrraedd y targedau a osodir iddynt yn eu Cynlluniau Addysg Unigol [CAU], yn dda.
21. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gwaith sydd dan sylw. Er bod y disgyblion mwyaf aeddfed yn gallu nodi'r hyn sydd angen i'w wneud i wella eu gwaith, nid yw gallu'r mwyafrif o'r disgyblion i bwysu a mesur eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gweithio'n galed yn y gwersi ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol.
22. Pan gânt gyfleoedd, gall disgyblion CA1 a CA2 weithio'n annibynnol gan drefnu'u gwaith eu hunain a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r camau nesaf i'w cymeryd yn y dysgu.
23. Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol.
24. Dengys y disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae safonau ymddygiad drwy'r ysgol yn rhagorol. Caiff yr agwedd gyfrifol hon effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wnânt.
25. Mae parch disgyblion tuag at amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill yn datblygu'n briodol. Mae eu dealltwriaeth o faterion cyfleoedd cyfartal yn dda.
26. Roedd cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad yn 92%. Mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

27. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
6%	73%	21%	0%	0%

28. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn uwch na thargedau LICC ar gyfer Cymru gyfan o 95% o wersi yn foddhaol neu'n well a 75% yn dda neu'n well.
29. Mae gan athrawon wybodaeth dda o'r pynciau y maent yn eu haddysgu ac o'r Canlyniadau Dymunol ar Gyfer Dysgu Plant dan bump oed. Mae'r berthynas dda sydd rhwng athrawon a disgyblion yn cyfrannu tuag at greu awyrgylch gwaith pwrpasol. Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd, caiff ei farcio'n gydwybodol ac mae'n hybu'r broses o godi safonau.
30. Mae nodweddion rhagorol i'r addysgu yn cynnwys:
  - Defnydd effeithiol o ystod eang o adnoddau, gan gynnwys adnoddau TGCh.
  - Profiadau ysgogus sy'n cynnal diddordeb y disgyblion.



- Rheolaeth dosbarth effeithiol.
  - Holi medrus a thasgau heriol.
  - Strategaethau effeithiol ar gyfer meithrin hyfedredd dwyieithog y disgyblion.
31. Mae nodweddion da i'r addysgu yn cynnwys:
- Defnydd o ystod briodol o strategaethau addysgu ac adnoddau.
  - Cyfarwyddiadau a nodau clir.
  - Cyd-gynllunio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion dysgu.
  - Amrywiaeth o drefniadaethau dosbarth.
  - Defnydd pwrpasol o adnoddau.
  - Cyflymdra priodol i'r gwersi.
32. Mae'r diffygion cyffredin yn y gwersi gradd 3 yn cynnwys:
- Cyflwyniadau rhy faith sy'n arwain at ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu tasgau.
  - Diffyg cyfleoedd i'r disgyblion weithio'n annibynnol a gwneud penderfyniadau am eu dysgu.
  - Aneglurder ynglŷn â'r cyfrwng addysgu a dysgu.
33. Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd yn radd 2. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n fanwl a chedwir cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau disgyblion yn y pynciau craidd a'r pynciau sylfaen. Mae'r targedau gwella a bennir ar gyfer pob disgybl yn arwain at gynnydd yn ystod y flwyddyn ysgol a'r cyfnod allweddol. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni am gynnydd eu plant o ansawdd dda.
34. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn rhagorol. Mae disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r athrawon. Mae ethos gofalgaf a chynnes ym mhob dosbarth; perchir barn a theimladau pob unigolyn ac mae disgyblion yn teimlo'n gryf eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.
35. Mae perthynas dda gyda'r rhieni ac adlewyrchir hyn yn yr ymatebion cadarnhaol gan fwyafrif helaeth y rhieni yn y cyfarfod cyn-aroelygiad, a'r holiaduron cyn-aroelygiad.
36. Mae cysylltiadau da rhwng y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r byd gwaith. Trwy eu hymwneud â nifer o fentrau lle maent yn prisio a gwerthu, mae'r disgyblion hynaf yn cynyddu eu dealltwriaeth o fyd busnes.
37. Mae'r trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn hyderus wrth newid ysgol.
38. Rhoddir sylw cyson ac addas i les personol disgyblion ac i faterion iechyd a diogelwch. Mae trefniadau da ar gyfer sicrhau diogelwch y disgyblion tra byddant yn yr ysgol ac i fonitro presenoldeb a phrydlondeb.

39. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac yn galluogi pob disgybl i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion ag anghenion dwys o fewn y dosbarthiadau ac yn arbennig gan y staff cefnogol, yn sicrhau nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Mae cydweithio da rhwng yr ysgol â'r rhieni ac asiantaethau allanol wrth fodloni anghenion penodol disgyblion ag AAA.
40. Mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion. Hyrwyddir cydraddoldeb rhyw a meithrinnir agweddau cadarnhaol tuag at hiliau eraill. Gwna'r disgyblion o grwpiau ethnig eraill gyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol.
41. Mae'r strategaethau a weithredir yn y dosbarthiadau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu hunanddisgyblaeth disgyblion, yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad ni welwyd unrhyw dystiolaeth o fwlio nag o ymddygiad gormesol neu boenydio disgyblion eraill.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

42. Mae'r pennaeth, y corff llywodraethu a'r athrawon yn darparu arweiniad eglur i ddatblygiad yr ysgol. Mae arweiniad cadarnhaol y pennaeth yn cydlynu ymdrechion y tîm dysgu'n fedrus iawn gan roi ymdeimlad o bwrpas cyffredin i'w gwaith.
43. Mae staff hŷn sydd â rolau arweinyddiaeth a rheolaeth, yn cyfrannu'n effeithiol i wella safonau ac ansawdd ac i ddatblygiad yr ysgol yn gyffredinol. Cyflawna'r staff addysgu eu cyfrifoldebau addysgu yn llawn, ond ni ddynodwyd cyfrifoldebau cwricwlaidd i bob un ohonynt.
44. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'u rôl. Adnabyddant yr ysgol yn dda ac yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymgymryd â'u cyfrifoldebau monitro ac arfarnu. Hyd yma, nid yw'r agwedd hon ar eu gwaith wedi'i datblygu i'w llawn botensial.
45. Mae gan y pennaeth a'r cydlynwyr pwnc wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol. Mae elfennau arfarnol amlwg ym mhob agwedd o waith hunan arfarnu'r ysgol a rhoddir ffocws penodol ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Adroddir yn anffurfiol yn unig i'r corff llywodraethu ar ddeilliannau'r hunan arfarniadau. Nid oes trefniadau pendant ychwaith ar gyfer cywain barn rhieni.
46. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol er bod diffyg manylder yn y dulliau gweithredu a gynhwysir o dan bob blaenoriaeth.
47. Mae'r athrawon yn hyddysg yn y meysydd a addysgir ganddynt a chyflawna'r staff cefnogi dysgu eu cyfrifoldebau'n dda gan wneud cyfraniad pwysig i ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniad.

48. Mae cyflenwad da o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob oedran. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o'r ystafell gyfrifiaduron a'r byrddau gwyn rhyngweithiol ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion, yn cyfrannu'n sylweddol at y radd 1 a gyflawnir yn y maes.
49. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn cynnig gofod helaeth ar gyfer niferoedd y disgyblion. Maent yn cynnwys arddangosfeydd deniadol sy'n cyfrannu dda tuag at greu awyrgylch addysgu ddiddorol.
50. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn goruchwyllo'r gyllideb yn ofalus. Defnyddir adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol.
51. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf wrth iddi fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad yr arolygwyr. Llwyddwyd i gynnal y safonau da mewn nifer o bynciau a gwnaed cynnydd da hefyd wrth godi safonau y plant dan bump oed. Gwelwyd gwelliant arwyddocaol yn y gweithdrefnau asesu, monitro ac arfarnu ac yn ansawdd y ddarpariaeth AAA. Er bod safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, erys llafaredd yn y ddau gyfnod allweddol ac ysgrifennu yn CA2, yn agweddau sydd angen mwy o sylw.
52. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:

- A1 Barhau i ddatblygu strategaethau ar gyfer codi safonau yn y Gymraeg trwy roi sylw i'r diffygion a nodwyd.
- A2 Barhau i ddatblygu trefniadau hunan arfarnu'r ysgol trwy gryfhau rôl monitro ac arfarnu'r cydlynwyr pwnc a'r corff llywodraethu.
- A3 Anelu ar ragoriaeth ym mhob pwnc trwy adeiladu ar y safonau da a gyflawnwyd eisoes.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

53. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

54. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
6%	73%	21%	0%	0%

55. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn uwch na thargedau LICC ar gyfer Cymru gyfan o 95% o wersi yn foddhaol neu'n well a 75% yn dda neu'n well.

56. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Meithrin	Derbyn
laith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 3	Gradd 3
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2	Gradd 2

57. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pynciau	CA1	CA2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 1	Gradd 1
Hanes	Gradd 1	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

58. Llwydda disgyblion y ddau gyfnod allweddol i gyrraedd y targedau a osodwyd gan yr ysgol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, roedd canlyniadau'r asesiadau a'r profion statudol ar ddiwedd CA1 a CA2 yn cymharu'n dda â'r targedau a osodwyd gan yr ysgol. Roedd canlyniadau yn y mwyafrif o'r pynciau unai yn uwch, neu yn debyg i dargedau LICC.

59. Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd priodol yn y medrau allweddol o siarad a gwranddo, darllen, ysgrifennu a defnyddio eu medrau rhifedd. Gwnânt gynnydd rhagorol yn eu defnydd o TGCh.

60. Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol mewn darllen Cymraeg a rhifedd yn radd 2. Mae safonau ysgrifennu yn radd 2 yn CA1 ac yn radd 3 yn CA2. Mae safonau siarad a gwrando Cymraeg yn radd 3 yn y ddau gyfnod allweddol. Mae safonau'r medrau allweddol Saesneg yn CA2 yn radd 2 yn yr holl foddau iaith. Mae'r safonau a gyflawnir mewn TGCh yn y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda nifer o nodweddion rhagorol i'r gwaith.
61. Mae datblygiad llwyddiannus medrau dwyieithog y disgyblion yn un o brif amcanion yr ysgol. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos cynnydd da iawn gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff dwyieithrwydd, ac yn arbennig datblygiad y Gymraeg, ei integreiddio'n effeithiol o fewn holl agweddau ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol.
62. Mae llwyddiant yr ysgol i sicrhau fod disgyblion o bob cefndir cymdeithasol a ieithyddol yn cyrraedd eu potensial yn un o'i nodweddion rhagorol. Darperir cefnogaeth dda i ddisgyblion o'r holl ystod allu.
63. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a'u medrau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Dengys asesiadau a phrofion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd y lefelau cenedlaethol priodol.
64. Ar ddiwedd CA1, yn 2004, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y CC, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y Gymraeg a gwyddoniaeth. Roeddynt yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol mewn mathemateg. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol di-dâl, roedd canlyniadau'r ysgol yn uwch na'r canolrif. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.
65. Yn CA2, yn 2004 a 2003, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y CC, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r Saesneg yn sylweddol is na'r perfformiad cenedlaethol yn 2004. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol di-dâl, roedd canlyniadau'r ysgol yn y chwarterl uchaf yn y Gymraeg a gwyddoniaeth ac yn uwch na'r canolrif mewn mathemateg. Roedd canlyniadau'r Saesneg yn is na'r canolrif. Tra roedd perfformiad bechgyn a merched yn gymharus mewn mathemateg a gwyddoniaeth, roedd perfformiad y bechgyn yn sylweddol is na pherfformiad y merched yn y Gymraeg a'r Saesneg.
66. Mae'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion ag AAA tuag at gyrraedd y targedau a osodir iddynt yn eu CAU yn dda.
67. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu. Wrth ymwneud â'u tasgau yn y dosbarth, maent yn barod i gynnig

- syniadau eu hunain ac maent yn dysgu gwybodaeth a medrau newydd yn effeithiol.
68. Mae gan ddisgyblion y ddau gyfnod allweddol ddealltwriaeth dda o'r gwaith sydd dan sylw.
  69. Er bod y disgyblion mwyaf aeddfed yn Blwyddyn 5 (B5) a B6 yn gallu mynegi barn am eu gwaith a nodi'r hyn sydd angen i'w wneud i'w wella, nid yw gallu'r mwyafrif o ddisgyblion i bwysu a mesur eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Nodweddir hyn yn arbennig wrth iddynt arfarnu eu gwaith ysgrifenedig.
  70. Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gweithio'n galed yn y gwersi ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau, yn dangos cymhelliant uchel ac yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial. Ymatebant yn frwdfrydig yn y gwersi a dangosant ddiddordeb yn eu gwaith.
  71. Mae safonau ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn drefnus ac yn dangos llawer iawn o hunanddisgyblaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt ac maent yn ystyriol ac yn gwrtais. Caiff yr agwedd gyfrifol hon effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wnânt.
  72. Roedd cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad yn 92%. Mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.
  73. Pan gânt gyfleoedd, gall disgyblion CA1 a CA2 weithio'n annibynnol gan drefnu'u gwaith eu hunain a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r camau nesaf i'w cymeryd yn y dysgu. Ar adegau, nid yw natur y tasgau a ddarperir yn cynnig cyfleoedd digonol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau gweithio'n annibynnol.
  74. Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol.
  75. Dengys y disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol. Cydweithiant yn rhwydd gyda phartner neu gydag aelodau grŵp, maent yn barod iawn i rannu adnoddau ac i drafod syniadau. Maent yn ystyriol o anawsterau a theimladau disgyblion eraill yn y dosbarth.
  76. Mae parch disgyblion tuag at amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill yn datblygu'n briodol. Mae eu dealltwriaeth o faterion cyfleoedd cyfartal yn dda.
  77. Mae'r cydweithio agos rhwng yr ysgol a'r dref ynghyd â'r ymweliadau addysgol niferus, yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ehangu dealltwriaeth y disgyblion o'u cymuned eu hunain a'r byd gwaith.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

78. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
6%	73%	21%	0%	0%

79. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn uwch na thargedau LICC ar gyfer Cymru gyfan o 95% o wersi yn foddhaol neu'n well a 75% yn dda neu'n well.

80. Mae gan athrawon wybodaeth dda o'r pynciau y maent yn eu haddysgu ac o'r Canlyniadau Dymunol ar Gyfer Dysgu Plant dan bump oed ac maent yn cynllunio eu gwersi'n drwyadl. Mae'r berthynas dda sydd rhwng athrawon a disgyblion yn cyfrannu tuag at greu awyrgylch gwaith pwrpasol. Rhoddir sylw da i anghenion unigolion yn y gwersi a chynllunnir yn ofalus i sicrhau cydraddoldeb i bawb. Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd, caiff ei farcio'n gydwysbodol ac mae'n hybu'r broses o godi safonau.

81. Mae nodweddion rhagorol i'r addysgu yn cynnwys:

- Defnydd effeithiol o ystod eang o adnoddau, gan gynnwys amrywiaeth o offer TGCh, i ysgogi diddordeb, egluro cysyniadau a datblygu cyfeiriadau ymchwilio eraill.
- Profiadau ysgogus sy'n cynnal diddordeb y disgyblion, yn ennyn eu brwdfrydedd ac yn datblygu eu dychymyg.
- Rheolaeth dosbarth effeithiol sy'n sicrhau canolbwyntiad da gan bob disgybl.
- Holi medrus sy'n galluogi disgyblion i ymchwilio i faterion i ddyfnder a manylrwydd cynyddol.
- Tasgau ac aseiniadau heriol.
- Strategaethau medrus ar gyfer meithrin hyfedredd dwyieithog y disgyblion.

82. Mae nodweddion da i'r addysgu yn cynnwys:

- Defnydd o ystod briodol o strategaethau addysgu ac adnoddau, sy'n helpu i ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion.
- Cyfarwyddiadau clir a nodau y mae'r disgyblion yn awyddus i'w cyflawni.
- Cyd-gynllunio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion dysgu.
- Amrywiaeth o strategaethau trefniadaeth dosbarth sy'n galluogi'r athrawon i sicrhau rhyngweithio effeithiol a chadarnhaol rhyngddynt â'r disgyblion.
- Defnydd pwrpasol o adnoddau.
- Cyflymdra priodol i'r gwersi sy'n sicrhau ymglymiad disgyblion.

83. Mae'r diffygion cyffredin yn y gwersi gradd 3 yn cynnwys:

- Cyflwyniadau rhy faith sy'n arwain at ddisgyblion yn colli diddordeb cyn iddynt gychwyn ar eu tasgau.
  - Gormod o fwydo gwybodaeth i'r disgyblion a diffyg cyfleoedd iddynt weithio'n annibynnol a gwneud penderfyniadau am eu dysgu.
  - Aneglurder ynglŷn â'r cyfrwng addysgu a dysgu.
84. Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd yn radd 2. Caiff gwaith ei farcio'n fanwl ac yn yr arfer orau, mae'n cynnwys sylwadau sy'n egluro sut y gall disgyblion ei wella. Defnyddir yr wybodaeth i unodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac i hyrwyddo safonau uwch. Caiff canlyniadau profion CA2 eu dadansoddi'n ofalus a'u defnyddio i lywio'r addysgu yn ystod y flwyddyn ganlynol.
85. Cedwir cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau disgyblion, gan gynnwys asesiadau sylfaen. Mae system gynhwysfawr ar gyfer asesu cynnydd disgyblion yn y pynciau craidd a'r pynciau sylfaen a defnydd profion cenedlaethol safonedig er mwyn cadarnhau cywirdeb asesiadau'r athrawon. Cedwir portffolio ysgol i ddangos y lefelau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn iaith a gwyddoniaeth a dechreuwyd datblygu portffolios tebyg mewn meysydd eraill.
86. Mae'r disgyblion yn deall diben asesu, gosodir targedau gwella ar gyfer pob disgybl a phob grŵp blwyddyn a thrafodir eu targedau gyda hwy. Yn gyffredinol, defnyddir y targedau hyn yn dda i wneud yn siwr bod y disgyblion yn gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn a'r cyfnod allweddol. Ychydig o hunan asesu a wna'r disgyblion.
87. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni ar gynnydd eu plant yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn ac mae eu hansawdd yn dda. Mae'r sylwadau yn amlinellu cyflawniadau a medrau'r disgyblion ym mhob pwnc er nad ydynt yn gosod targedau ar gyfer gwelliant.



**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

88. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.
89. Mae'r cwricwlwm yn cynnig darpariaeth dda sy'n ymateb i anghenion dysgu'r disgyblion ac yn darparu mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Cynllunnir y cwricwlwm yn drwyadl ar gyfer mwyafrif y pynciau, er fod rhai cynlluniau gwaith sydd angen eu diweddarau.
90. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Gwnânt gynnydd sydd yn eu harwain yn naturiol at raglenni astudio'r CC.
91. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu cynhwysiad cymdeithasol ymhob agwedd o fynediad a chyfleoedd cyfartal, ac wedi'i strwythuro'n dda yn unol â phrif amcanion yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni astudio sydd wedi'u cynllunio'n fanwl, ac sydd ar gael i bob disgybl, beth bynnag ei allu, rhyw neu gefndir diwylliannol neu grefyddol.
92. Mae darpariaeth dda i sicrhau bod pob disgybl yn ennill y medrau sylfaenol ac allweddol angenrheidiol. Yn ddiweddar enillodd yr ysgol achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.
93. Mae ansawdd y ddarpariaeth yn y ddwy iaith yn dda. Trwy gynllunio bwriadus, sicrheir y caiff medrau dwyieithog y disgyblion eu datblygu'n gynyddol drwy'r cyfnodau allweddol. Rhoddir lle amlwg i'r Cwricwlwm Cymreig yn y cwricwlwm, yn arbennig yn y pynciau dyniaethol.
94. Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol. Mae ymweliadau niferus â llefydd diddorol a gwersi Ffrangeg i'r disgyblion hynaf wedi cyfoethogi eu profiadau a chyfrannu at godi safonau cyflawniad mewn gwahanol agweddau o'r cwricwlwm.
95. Mae'r ysgol yn ymwybodol o ddatblygiadau cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang a chaiff yr agweddau hyn sylw priodol yn y cwricwlwm. Llwyddwyd i ennill achrediad yr 'Ysgol Eco' a sefydlwyd trefn ar gyfer ailgylchu ysbwriel.
96. Mae'r profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. O ganlyniad, mae gan y disgyblion synnwyr clir o berchnogaeth a chyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'i hamgylchedd. Mae addoli ar y cyd yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol ac yn eu helpu i barchu gwirionedd a chyfiawnder.

97. Caiff diwylliant Cymru sylw priodol, gan gynnwys ymweliadau gan artistiaid a llenorion Cymreig. Gwna'r ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) y disgyblion. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn trafod yn aeddfed, maent yn weithredol wrth gynllunio ffyrdd i wella'r ysgol ac maent yn gyfarwydd â mynegi barn yn ystod 'amser cylch'. Ar hyn o bryd, dim ond disgyblion B6 sydd ar y Cyngor Ysgol.
98. Ceir cysylltiadau effeithiol â rhieni. Cynhwysir nifer fawr o rieni yn y gwaith o gefnogi gweithgareddau'r ysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae mwyafrif y rhieni'n gefnogol iawn ac mae ganddynt berthynas dda â'r ysgol. Yn yr holiaduron ac yn y cyfarfod cyn yr arolygiad, mynegodd y rhieni bron yn unfrydol, eu bod yn fodlon iawn â'r safonau a gyflawnir gan eu plant a'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol.
99. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gyda'r rhieni. Mae'r wybodaeth a ddarperir o ansawdd da ac yn addas ar gyfer siaradwyr y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cytundeb Cartref ac Ysgol yn ddogfen addas a defnyddiol. Cydymffurfia'r Llawlyfr i'r Rhieni â'r gofynion statudol ond mae rhai bylchau yn Adroddiad Blyneddol y Llywodraethwyr i'r rhieni.
100. Ceir cysylltiadau da â'r gymuned drwy ymweliadau a gweithgareddau cymdeithasol a chwricwlaidd. Mae cysylltiadau da gyda'r ysgol uwchradd leol. Yn achlysurol, derbynnir myfyrwyr o sefydliad hyfforddiant cychwynol i athrawon.
101. Mae cysylltiadau da rhwng y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r byd gwaith. Trwy eu hymwneud â nifer o fentrau, mae'r disgyblion hynaf yn cynyddu eu dealltwriaeth o fyd busnes.
102. Mae profiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ennill ystod o fedrau sy'n werthfawr o ran dysgu gydol oes. Mae'r rhain yn cynnwys dwyieithrwydd, medrau TGCh, medrau rhifedd, a medrau personol a chymdeithasol. Dengys y disgyblion fedrau da hefyd mewn datrys problemau a chydweithio, ond nid yw eu gallu i ddatblygu yn ddysgwyr annibynnol ac i reoli eu dysgu eu hunain wedi cyrraedd ei lawn potensial.

#### **Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?**

##### **Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol**

103. Nid yw barn y tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn Gradd 2 a wnaed gan yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.
104. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn rhagorol. Mae disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r athrawon. Mae ethos gofalggar a chynnes ym mhob dosbarth, perchir barn a theimladau pob unigolyn ac mae disgyblion yn teimlo'n gryf eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae rhieni hefyd yn hynod falch o'r gofal a'r cyfarwyddyd a rydd yr ysgol i'w plant.
105. Mae perthynas dda gyda'r rhieni ac adlewyrchir hyn yn yr ymatebion cadarnhaol gan fwyafrif helaeth y rhieni yn y cyfarfod cyn-arolygiad, a'r holiaduron cyn-arolygiad. Mae cysylltiadau da rhwng yr ysgol â gwasanaethau cefnogol yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI), megis yr Uned Ymddygiad, yr Uned Iaith a'r Uned AAA Lleol.
106. Cyflawna'r athrawon a'r staff cefnogi eu cyfrifoldebau'n dda. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda a rhoi sylw priodol i'w haddysg bersonol a chymdeithasol yn holl weithgareddau'r ysgol.
107. Mae'r plant dan bump yn ymgartrefu'n gyflym yn eu dosbarthiadau ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae darpariaeth dda ar gyfer derbyn disgyblion hŷn i'r ysgol yn ystod y flwyddyn.
108. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn hyderus wrth newid ysgol. Mae'r cydweithio clos rhwng ysgolion cynradd y dalgylch a'r ysgol uwchradd yn sicrhau bod dilyniant da ym mhrofiadau cwricwlaidd y disgyblion ac y rhoddir blaenoriaeth briodol i faterion lles disgyblion unigol.
109. Rhoddir sylw cyson ac addas i les bersonol disgyblion ac i faterion iechyd a diogelwch, er enghraifft, y sylw a roddir i fwyta'n iach. Cymerir camau ymarferol da i sicrhau diogelwch y disgyblion tra byddant yn yr ysgol, ac i fonitro presenoldeb a phrydlondeb.
110. Mae'r staff yn arddangos gwybodaeth dda iawn o'r canllawiau manwl sydd ar eu cyfer yn y maes amddiffyn plant ac mae'r trefniadau gweithredu wedi'u sefydlu'n dda.
111. Mae polisiau ar gyfer addysg rhyw, ymarfer tân, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn hysbys i'r staff i gyd.
112. Mae gan yr ysgol systemau llwyddiannus iawn i adnabod disgyblion sydd ag anghenion arbennig o oed ifanc iawn. Defnyddir profion safonedig ac asesiadau eraill a threfnir cynhaliaeth yn ôl yr angen.

113. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac mae'r gweithdrefnau'n bodloni gofynion y Côd Ymarfer. Mae'r cydlynnydd yn cyflawni ei dyletswyddau yn gydwybodol ac effeithiol, ac mae'r gefnogaeth a roddir ganddi hi, yr athrawes arbenigol a'r staff cefnogi yn hyrwyddo cynnydd disgyblion ac yn eu galluogi i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion ag anghenion dwys o fewn y dosbarthiadau, yn arbennig gan y staff cefnogol, yn sicrhau nad yw'r disgyblion yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Mae gan bob disgybl CAU perthnasol, adolygir eu cynnydd yn rheolaidd ac addasir y ddarpariaeth yn ôl yr angen. Mae cydweithio da rhwng yr ysgol â'r rhieni ac asiantaethau allanol wrth fodloni anghenion penodol disgyblion ag AAA.
114. Mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion. Hyrwyddir cydraddoldeb rhyw a meithrinnir agweddau cadarnhaol tuag at hiliau eraill. Gwna'r disgyblion o grwpiau ethnig eraill gyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol.
115. Mae'r strategaethau a weithredir yn y dosbarthiadau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu hunanddisgyblaeth disgyblion, yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad ni welwyd unrhyw dystiolaeth o fwlio nag o ymddygiad gormesol neu boenydio disgyblion eraill.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

116. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.
117. Mae'r pennaeth, y corff llywodraethu a'r athrawon yn darparu arweiniad eglur i ddatblygiad yr ysgol. Cydrennir gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleoedd cyfartal. Mae nodau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion ac ar greu'r amodau gorau posib i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu.
118. Mae arweiniad cadarnhaol y pennaeth yn cydlynu ymdrechion y tîm dysgu'n fedrus iawn gan roi ymdeimlad o bwrpas cyffredin i'w waith. Gwerthfawrogir cyfraniad pob aelod staff a chânt gyfleoedd niferus i ddatblygu eu medrau proffesiynol. Ystyrir eu barn yn ofalus wrth lunio polisïau ac wrth wneud penderfyniadau allweddol.
119. Perchir barn disgyblion o bob oedran a thrwy'r Cyngor Ysgol, caiff disgyblion B6 gyfleoedd da i ddylanwadu ar nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol.
120. Mae staff hŷn sydd â rolau arweinyddiaeth a rheolaeth, yn cyfrannu'n effeithiol i wella safonau ac ansawdd ac i ddatblygiad yr ysgol yn gyffredinol. Ysgwyddant gyfran dda o gyfrifoldebau a darparant arweiniad clir i'w cyd-athrawon. Cyflawna pob aelod staff eu cyfrifoldebau addysgu yn llawn, ond ni ddynodwyd cyfrifoldebau cwricwlaidd i bob un aelod.
121. Rhoddir sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi ymrwymo ei hun i'r Cynllun Ysgol Iach ac yn ddiweddar, wedi ennill achrediad Marc Safon Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a'r Ysgol Werdd. Sefydlwyd cynllun hyrwyddo ymddygiad da yn CA1 a rhoddwyd sylw i ddulliau dysgu. Caiff datblygiad TGCh sylw dwys ym mhob dosbarth a gwneir defnydd effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Cydweithia'r ysgol yn dda gyda nifer o bartneriaethau gan gynnwys Prifysgol Cymru, yr AALI ag ysgolion cynradd eraill y dalgyrch.
122. Mae prosesau effeithiol mewn grym ar gyfer gosod targedau i ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Seilir y targedau ar berfformiad tebygol pob disgybl ac, ar y cyfan, maent yn dargedau heriol a chyraeddadwy.
123. Gweithredir y drefn Rheoli Perfformiad yn effeithiol. Mae'r amcanion y cytunir arnynt ar gyfer pob unigolyn yn cynnwys amcanion personol yn ogystal â rhai sy'n deillio o'r CDY. Darperir cyfleoedd da i athrawon roi sylw i'w Datblygiad Proffesiynol Parhaus [DPP].

124. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'u rôl ac o'u cyfraniad i gynllunio strategol yr ysgol. Dangosant ddiddordeb brwd yn eu gwaith a chyflawnant eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o'r ysgol ac yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymgymryd â'u cyfrifoldebau o fonitro ac arfarnu'r ddarpariaeth addysgol. Hyd yma, nid yw'r agwedd hon ar eu gwaith wedi'i datblygu i'w llawn potensial.

## Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

125. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.
126. Mae gan y pennaeth a'r cydlynwyr pwnc wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol yn y meysydd hynny maent yn gyfrifol amdanynt a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth ar gyfer codi safonau a gwneud gwelliannau. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Dengys tystiolaeth yr arolygiad bod yr ysgol wedi bod yn rhy geidwadol wrth ddyfarnu gradd 2 iddi ei hun yng nghwestiynau allweddol 4 a 7. Dyfarnwyd gradd 1 i'r ddau gwestiwn gan y tîm arolygu.
127. Mae elfennau arfarnol amlwg ym mhob agwedd o waith hunan arfarnu'r ysgol a rhoddir ffocws penodol ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Defnyddir nifer o strategaethau ar gyfer casglu tystiolaeth gan gynnwys arsylwi gwersi, archwilio gwaith disgyblion, dadansoddi canlyniadau profion ac asesiadau, a manteisio ar gyngor ymgynghorwyr addysg.
128. Gwneir defnydd addas o wybodaeth meincnodol dalgylchol, lleol a chenedlaethol er mwyn cymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion eraill tebyg o ran maint, cinio am ddim a chefnidir ieithyddol. Prin yw'r defnydd a wneir o'r chwarteli cenedlaethol.
129. Adroddir yn anffurfiol yn unig i'r corff llywodraethu ar ddeilliannau'r hunan arfarniadau. Nid oes trefniadau pendant ychwaith ar gyfer cywain barn rhieni.
130. Mae'r adroddiad hunan arfarnu cryno a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn glir a darllenadwy. Mae o ansawdd da. Dengys bod diwylliant o hunan arfarnu wedi'i sefydlu yn yr ysgol a bod y trefniadau yn parhau i esblygu wrth i staff ddod yn fwy profiadol a hyderus yn y maes.
131. Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r hunan arfarniadau a'r blaenoriaethau a bennir yn y CDY. Mae'r CDY yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol er bod diffyg manylder yn y dulliau gweithredu a gynhwysir o dan y gwahanol flaenoriaethau. Nodir y deilliannau disgwylidig ynghyd â'r dulliau monitro arfaethedig, dynodir cyfrifoldebau gweithredu i unigolion a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Caiff gweithrediad y CDY ynghyd ag effaith y datblygiadau ar yr ysgol eu monitro a'u harfarnu ar ddiwedd y flwyddyn.
132. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf wrth iddi fynd i'r afael â'r materion allweddol. Llwyddwyd i gynnal y safonau da mewn mathemateg, hanes ac addysg grefyddol ac i godi safonau dylunio a thechnoleg o'r boddhaol i radd 1. Gwnaed cynnydd da hefyd wrth godi

safonau y plant dan bump oed. Gwelwyd gwelliant arwyddocaol yn y gweithdrefnau asesu, monitro ac arfarnu ac yn ansawdd y ddarpariaeth AAA. Er bod safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, erys llafaredd yn y ddau gyfnod allweddol ac ysgrifennu yn CA2, yn agweddau sydd angen mwy o sylw.



**Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwr wrth ddefnyddio adnoddau?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol**

133. Nid yw barn y tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn Gradd 2 a wnaed gan yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.
134. Mae'r nifer o staff addysgu yn ddigonol ac yn sicrhau cymhareb disgybl:athro ffafriol o 23:1. Mae'r athrawon yn hyddysg yn y meysydd a addysgir ganddynt a chyflawna'r staff cefnogi dysgu eu cyfrifoldebau'n dda gan wneud cyfraniad pwysig i ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniad. Mae'r athrawon wedi'u lleoli'n briodol yn yr ysgol a gwneir defnydd effeithlon o'u harbenigeddau drwy gyfnewid grwpiau dysgu ar gyfer addysgu rhai pynciau.
135. Diweddara'r athrawon eu gwybodaeth gwricwlaidd a'u medrau addysgu'n gyson drwy ddilyn rhaglen hyfforddiant a thrwy dderbyn ymweliadau cynhaliol gan ymgynghorwyr yr AALI. Mae'r rhaglen yn adlewyrchu blaenoriaethau'r CDY yn ogystal ag amcanion rheoli perfformiad personol athrawon unigol.
136. Mae cyflenwad da o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob oedran, gan gynnwys y plant dan bump oed. Maent o ansawdd da ac yn hwylus wrth law i'r disgyblion eu defnyddio. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o'r ystafell gyfrifiaduron a'r byrddau gwyn rhyngweithiol ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion a grymuso'r addysgu, yn cyfrannu'n sylweddol at y radd 1 a gyflawnir yn y maes. Mae'r cyfleusterau allanol, megis y llyfrgell a'r gampfa leol, yn adnoddau dysgu ac addysgu gwerthfawr i'r ysgol.
137. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn cynnig gofod helaeth ar gyfer niferoedd y disgyblion. Maent yn cynnwys arddangosfeydd deniadol sy'n cyfrannu at yr awyrgylch addysgu. Cynhelir adeiladau a thiroedd yr ysgol yn dda ac fe'u defnyddir yn effeithiol ac effeithlon.
138. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn goruchwyllo'r gyllideb yn ofalus. Defnyddir adnoddau'n economaidd, effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol fel y'u mynegir yn y CDY. Rhagwelwyd y bydd gostyngiad yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn gyllidol nesaf a dechreuwyd gynllunio ar gyfer hyn. Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr pwnc yn adolygu ac yn arfarnu anghenion a defnydd adnoddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian.
139. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Plant dan bump oed

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

140. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant o dan bump oed yn briodol i'w anghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

#### Nodweddion da ac eithriadol

##### ***Datblygiad iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu: Gradd 3***

141. Mae'r plant meithrin yn gwrando'n dda ar yr athrawes ac yn dechrau dysgu geiriau bob dydd yn Gymraeg. Maent yn barod iawn i ailadrodd rhigymau cyfarwydd, cyfrif a chanu gyda'r athrawes a'r cymhorthydd. Maent yn adnabod rhai llythrennau ac yn eu ffurfio mewn gwahanol ffyrdd a mwynhânt wrando ar storïau.
142. Erbyn y dosbarth derbyn, mae'r plant yn datblygu yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg ac maent yn siarad yn fwy hyderus. Mae nifer fechan, sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, yn siarad yn eglur gan drafod eu gweithgareddau ac ailddweud stori yn dda. Mae'r plant i gyd yn gwerthfawrogi llyfrau ac yn eu trafod yn frwdfrydig. Mae'r mwyafrif mawr yn adnabod nifer dda o lythrennau ac yn ysgrifennu eu henwau'n annibynnol a chopio brawddegau syml.

##### ***Datblygiad mathemategol: Gradd 2***

143. Mae'r plant meithrin yn adrodd rhifau yn gywir hyd at 20 ac maent yn gyfarwydd â nifer o rigymau perthnasol. Maent yn gallu dosbarthu gwrthrychau 'bach', 'canolig' a 'mawr' ac mae eu cysyniadau mathemategol megis 'mwy' a 'llai' yn datblygu'n dda.
144. Defnyddia'r plant derbyn wahanol adnoddau i greu patrymau lliw a siâp. Gallant drafod y patrymau hyn gan egluro sut y daethant i benderfyniadau. Maent yn cyfateb, enwi a thrafod nodweddion siapiau dau-ddimensiwn (2D) a 3D gan egluro'r gwahaniaethau rhyngddynt a deall pa rai sy'n solid. Gallant ddioli, cyfateb a rhoi rhifau mewn trefn ac adnabod rhifolion.

##### ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd: Gradd 2***

145. Trwy eu defnydd o wahanol raglenni cyfrifiadurol, daw'r plant meithrin yn gyfarwydd â defnyddio'r llygoden i symud lluniau o gwmpas y sgrîn. Gwnânt hyn yn ddeheuig. Gallant adrodd dyddiau'r wythnos ac maent yn arbrofi a thrafod yr hyn a wnânt wrth chwarae yn y twb tywod a'r twb dŵr.
146. Trwy nifer o weithgareddau a phrofiadau difyr, mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant derbyn o'r byd, yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio'r cyfrifiadurol yn hyderus i chwarae gêmiau addysgol ac i greu lluniau anifeiliaid yn y jyngl. Gallant egluro beth sy'n digwydd yn y dydd a'r nos, trafod trefn

diwrnod a chymharu ffyrdd o oleuo ers talwm â heddiw.

***Datblygiad creadigol: Gradd 2***

147. Mae'r plant meithrin yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys clai i greu moch bach, deunydd gwastraff a phaent amrywiol. Maent yn canu amrywiaeth o rigymau addas gan glapio fel cyfeiliant. Yn dilyn straeon addas, cânt wisgo i fyny fel cymeriadau'r stori a chwarae rôl yn y Tŷ Cnoc Cnoc.
148. Mae'r plant derbyn yn medru trafod eu hoff liwiau a chreu anifeiliaid y jyngl gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau. Ar ôl arsylwi ar ffrwyth maent wedi creu llun llonydd manwl gan dalu sylw i siâp a lliw. Maent yn clapio i gerddoriaeth ar dâp, yn creu symudiadau i gyd-fynd â chân benodol ac yn canu hwiangerddi a chaneuon eraill addas. Defnyddiant theatr bypedau yn y dosbarth i chwarae rôl ac ail ddweud stori yn effeithiol.

***Datblygiad corfforol: Gradd 2***

149. Gall y plant meithrin enwi rhannau'r corff ac maent yn deall eu bod yn tyfu. Caiff eu medrau trin offer mân eu datblygu'n briodol ac maent yn symud yn hyderus ar y ffrâm ddringo a'r llithren sydd yn y dosbarth.
150. Defnyddia'r plant derbyn sisyrnau, brwsys paent, pensiliau a glud yn briodol. Mewn sesiynau addysg gorfforol mae'r plant yn gwisgo'n addas, yn gwybod fod angen cynhesu cyn cychwyn ar eu gweithgareddau, yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o ofod ac mae'r mwyafrif yn dilyn cyfarwyddiadau'r athrawes yn dda. Gallant neidio, rhedeg, cerdded, sgipio a chreu gwahanol siapiau gyda pheth rheolaeth.

***Datblygiad personol a chymdeithasol: Gradd 2***

151. Mae'r plant meithrin yn dysgu dod yn ffrindiau gan roi ystyriaeth i anghenion eraill. Maent yn diolch yn rheolaidd ac yn dechrau deall fod angen iddynt aros eu tro a rhannu teganau. Maent yn awyddus i helpu ei gilydd.
152. Gwna'r plant derbyn gynnydd amlwg mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Maent bron yn ddieithriad yn ymateb yn briodol i drefn y dosbarth gan ddeall fod yn rhaid iddynt aros eu tro a chyd-chwarae. Maent wedi ffurfio perthynas dda gyda'i gilydd ac oedolion a gofynnant am gymorth pan fo angen. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau ac yn cyflawni gweithgareddau yn eithaf annibynnol.

**Diffygion**

153. Cyfyng yw geirfa nifer arwyddocaol o'r plant meithrin a derbyn ac mae arnynt angen anogaeth a chefnogaeth i ymateb yn fwy estynedig.
154. Er bod nifer fawr o blant derbyn yn adnabod llythrennau, ychydig o ysgrifennu geiriau a brawddegau a wnânt yn annibynnol.

## Cymraeg

### **Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig** **Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwysio diffygion**

Dyfarnwyd gradd 2 i ddarllen ac ysgrifennu yn CA1 a gradd 3 i lafaredd.  
Dyfarnwyd gradd 2 i ddarllen yn CA2 a Gradd 3 i lafaredd ac ysgrifennu.

#### **Nodweddion da ac eithriadol**

155. Mae disgyblion CA1 yn gwranddo'n dda ar gyflwyniadau a storïau ac mae'r mwyafrif yn awyddus i ymateb a chymryd rhan mewn trafodaethau. Er bod nifer helaeth o'r disgyblion o gartrefi di-Gymraeg, erbyn B2 gwelir datblygiad da yn eu hyder a'u gallu i siarad mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r mwyaf hyderus yn trafod yn estynedig gan gynnig atebion synhwyrol i gwestiynau a dangos parodrwydd i sgwrsio.
156. Cyflawna'r disgyblion ystod dda o weithgareddau darllen, gan gynnwys mynd â llyfrau gartref. Maent yn adnabod llawer o eiriau cyffredin a defnyddiant nifer addas o strategaethau priodol i'w cynorthwyo i ddarllen. Mae'r darllenwyr gorau yn darllen yn rhugl gyda mynegiant priodol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng llyfrau ffeithiol a ffuglen a gallant adnabod patrymau sy'n odli. Gall y darllenwyr llai hyderus ddadelfennu geiriau a chyfleu ystyr.
157. Mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n gynyddol drwy gydol CA1. Maent yn copïo'n ofalus ac yn defnyddio geirfa barod a fframiau ysgrifennu i gynhyrchu darnau amrywiol. Defnyddiant ystod o batrymau brawddegol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o atalnodi sylfaenol. Erbyn B2, gall nifer helaeth o'r disgyblion ysgrifennu'n ymestynnol ac annibynnol ar amrywiol destunau ffeithiol a chreadigol.
158. Mae disgyblion CA2 yn gwranddo'n gwrtais ar ei gilydd ac mewn cyflwyniadau dosbarth. Mae eu mynegiant llafar yn gwella wrth iddynt ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Gydag arweiniad ac anogaeth, gallant gynnig traethiad mwy estynedig. Mae cnewyllyn bach o ddisgyblion ym mhen uchaf yr ysgol yn mynegi eu hunain yn dda ar lafar gan siarad yn rhwydd, defnyddio geirfa addas a chyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau dosbarth.
159. Mae'r disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn darllen yn dda. Mae'r mwyafrif helaeth yn darllen testunau sy'n cyfateb i'w gallu ac maent yn datblygu i fod yn ddarllenwyr hyderus sy'n medru ateb cwestiynau am nodweddion a chynnwys llyfrau. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn darllen yn rhugl ac ystyrllon, yn trafod cynllun a chymeriadau stori, yn mynegi barn am y llyfrau a ddarllenir ganddynt ac yn gallu trafod eu hoff awduron. Llwydda'r disgyblion canolig ac is eu gallu i ddehongli testunau symlach o ran cynnwys a mynegiant. Mae ymweliadau wythnosol i lyfrgell y dref gan y disgyblion hŷn, a'r arfer o ddarllen mewn grŵpiau, yn hyrwyddo eu sgiliau a'u diddordeb. Mae gallu'r disgyblion i gywain gwybodaeth o ffynonellau amrywiol gan gynnwys y wê, yn dda.

160. Mae disgyblion CA2 yn cynhyrchu amrywiaeth o waith ysgrifenedig ffeithiol a chreadigol. Maent yn ymwybodol bod defnyddio ffurf gryno'r ferf, idiomau a chymariaethau yn gwella eu gwaith ysgrifenedig ac maent yn eu defnyddio'n gyson i roi lliw a mynegiant i'w hysgrifennu. Ysgrifennant yn hyderus wrth ddefnyddio modelau a chanllawiau pendant. Erbyn B5 a B6, mae meistrolaeth nifer fach o ddisgyblion ar gywair, cystrawen a chonfensiynau iaith yn dda.

### **Diffygion**

161. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nifer fawr o'r disgyblion yn ddihyder wrth sgwrsio yn Gymraeg. Mae eu mynegiant yn gyfyng, cânt anhawster mynegi eu hunain mewn brawddegau ac nid oes ganddynt yr eirfa angenrheidiol i draethu'n estynedig mewn gwahanol sefyllfaoedd.
162. Yn CA2, nid yw sgiliau cynllunio disgyblion, gan gynnwys drafftio, ail-ddrafftio ac adolygu eu gwaith yn annibynnol, wedi eu datblygu'n ddigonol. Ychydig sy'n cynhyrchu darnau estynedig yn annibynnol.
163. Mae camgymeriadau treiglo a sillafu yn amlwg iawn yng ngwaith ysgrifenedig nifer sylweddol o ddisgyblion CA2.

### **Mathemateg**

**Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Nodweddion da ac eithriadol**

164. Mae gan ddisgyblion CA1 ddealltwriaeth gadarn o werth lle ac maent yn darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau gyda chywirdeb cynyddol. Cofiant yn dda ystod eang o waith blaenorol, deallant gysyniadau allweddol a gallant ddwyn i gof ffeithiau allweddol yn gyflym a chywir. Erbyn B2, gall disgyblion egluro eu gwaith yn rhesymegol, cyfrif ar lafar mewn camau o wahanol feintiau ac adnabod patrymau rhifol syml. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o arian a gallant ddefnyddio ffracsiynau syml megis haneri a chwarteri.
165. Mae eu dealltwriaeth o nodweddion siapiau 2D a 3D yn gadarn. Maent yn adnabod siapiau yn ôl eu henwau mathemategol a gallant ddisgrifio gyda chywirdeb eu prif nodweddion. Erbyn B2, defnyddiant unedau safonol yn gywir wrth fesur hyd, màs a chyfaint ac mae eu dealltwriaeth o amser yn datblygu'n briodol.
166. Mae disgyblion CA2 yn ddefnyddwyr hyderus o weithdrefnau mathemategol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle rhifau pum digid a gallant adalw a defnyddio ffeithiau llusgi a rhannu gyda chyflymder da. Defnyddiant y pedair rheol gyda sicrwydd cynyddol, gallant gynnig amcangyfrif rhesymol o atebion i broblemau rhifol a gweithiant gyda chywirdeb ar bapur ac yn y pen.

Erbyn B5, ymdriniant â degolion yn hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ffracsiynau, canrannau a rhifau negatïf.

167. Defnyddia'r disgyblion ddiagramau, graffiau a nodiant mathemategol yn effeithiol i gyfleu eu canfyddiadau a'u syniadau yn glir i eraill. Maent yn fedrus iawn wrth holi ac aildrefnu'r data.
168. Gall y disgyblion fesur ac enwi onglau yn gywir a nodi'r cymesureddau mewn siapiau 2D a 3D. Dewisant yr offer a'r uned fesur fwyaf priodol ar gyfer darganfod hyd, perimedr, arwynebedd a màs gwrthrychau. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gynhwysedd a chyfaint.

## Diffygion

169. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r amrediad o strategaethau gwaith pen a ddefnyddir gan y disgyblion canolog ac is eu gallu, yn gyfyng.

<b>Dylunio a thechnoleg</b>
-----------------------------

**Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol**  
**Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol**

### Nodweddion da ac eithriadol

170. Mae disgyblion CA1 yn ymwneud yn llwyddiannus iawn ag aseiniadau lle byddant yn dylunio ac yn gwneud cynhyrchion. Datblygant syniadau eu hunain drwy wneud nifer o luniadau llawrydd cyn dewis y syniad mwyaf addas ar gyfer y dasg. Mae safonau a gyflawnir ganddynt wrth ymchwilio i gynhyrchion yn un o nodweddion eithriadol y pwnc yn yr ysgol. Bydd y disgyblion yn edrych yn fanwl ar gynhyrchion cyfarwydd megis fframiau lluniau, cyn symud ymlaen i ddylunio a gwneud gwrthrychau eu hunain.
171. Maent yn cydosod, asio a chyfuno ystod eang o ddeunyddiau a chydrannau, gan gadw golwg ar orffeniad eu cynnyrch. Defnyddiant fecanweithiau syml ac echelydd yn gelfydd yn eu cynhyrchion. Gallant arenwi prif gryfderau eu gwaith yn ogystal â nodi sut y gellir gwneud gwelliannau.
172. Bydd disgyblion CA2 yn ymchwilio'n fanwl i wneuthuriad gwrthrychau cyfarwydd megis matiau bwrdd a châs pensiliau, ac yn defnyddio'u harsylwadau wrth greu cynhyrchion tebyg eu hunain.
173. Mae eu cynlluniau yn dangos ymwybyddiaeth dda o briodweddau deunyddiau, megis cryfder a hyblygrwydd, a gallant ddethol y deunydd a'r cyfrwng mwyaf addas ar gyfer cyflawni tasg. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion tasg a byddant yn gwneud nifer o ddyluniadau bras cyn dewis yr un sydd fwyaf addas i'r gwaith. Cynhyrchant syniadau dychmygus a defnyddiant ystod eang o ddeunyddiau a chydrannau ar gyfer greu gwrthrychau a modelau.
174. Wrth greu olwyn ffair, dangosa'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r hyn sy'n

effeithio ar gryfder strwythurau ac adeiladau. Gwnânt ddefnydd effeithiol o gydrannau trydanol i greu effeithiau arbennig yn eu cynhyrchion.

175. Mae gallu disgyblion CA2 i ddefnyddio meddalwedd TGCh er mwyn rheoli symudiadau gwrthrychau yn un o nodweddion eithriadol y maes.
176. Gwerthusant eu cynnyrch terfynol yn ddeallus a gwnânt rai addasiadau er mwyn gwella ei effeithiolrwydd.

## Diffygion

177. Nid oes diffygion arwyddocaol.

<b>Hanes</b>
--------------

## Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol

### Nodweddion da ac eithriadol

178. Mae safonau a gyflawnir gan ddisgyblion CA1 a CA2 wrth ymwneud ag ymholiad hanesyddol lleol yn un o nodweddion eithriadol y pwnc yn yr ysgol. Mae ymweliadau â manau o ddiddordeb hanesyddol, arbenigwyr lleol yn ymweld â'r ysgol, ynghyd ag arddangosfeydd deniadol yn cyfrannu'n sylweddol at brofiadau hanesyddol a sgiliau ymchwilio y disgyblion.
179. Yn CA1, mae geirfa hanesyddol yn cael ei datblygu'n dda gyda llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio ymadroddion fel "ers talwm" a "hynaf" gan arddangos eu bod yn ymwybodol o dreigl amser. Ym mhen uchaf CA1, ceir defnydd rhagorol o amgueddfa ddosbarth, gyda disgyblion yn medru trafod arteffactau hanesyddol yn ddeallus. Wrth dynnu ar eu profiadau, medrant osod y gwrthrychau mewn trefn gronolegol a chynnig esboniadau perthnasol.
180. Erbyn cyrraedd CA2, mae disgyblion yn medru cynnal eu hymchwiliadau eu hunain i destunau a gwrthrychau hanesyddol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o gronoleg cyfnodau hanesyddol a defnyddiant linellau amser yn ddeallus.
181. Mae disgyblion CA2 yn ymwybodol o nodweddion cymdeithas ddiwydiannol leol y 19fed ganrif ac yn medru trosglwyddo'r wybodaeth i gynnig dehongliad teg o gymdeithasau diwydiannol mewn cyd-destun ehangach. Drwy gymharu ffotograffau a darluniau o gloddio ar Mynydd Parys, dônt yn ymwybodol o werth y dystiolaeth ar gyfer dehongli'r gorffennol.
182. Mae dulliau cyflwyno a chofnodi'r disgyblion yn cwmpasu ystod eang o fedrau allweddol. Trwy gyfrwng chwarae rôl, drama a gân mae disgyblion CA2 yn blasu profiadau gwahanol gyfnodau hanesyddol gan ddangos empathi tuag at amgylchiadau byw plant yn y cyfnodau hynny.

183. Mae'r defnydd o'r ardal leol a'i hadnoddau ar gyfer atgyfnerthu'r cwricwlwm yn elfen eithriadol o waith yr ysgol ac yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o'r ddau gyfnod allweddol.

### Diffygion

184. Nid oes diffygion pwysig.

<b>Addysg grefyddol</b>
-------------------------

### **Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da dim diffygion pwysig**

### **Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da ac eithriadol**

185. Yn CA1, mae'r disgyblion yn gwybod nifer dda o hanesion o'r Beibl a gallant eu hailadrodd ar lafar yn gywir. Maent yn gwybod am y gwyliau Cristnogol ac yn medru trafod rhai o'r prif ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy.
186. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o nodweddion ac arferion addoldai a medrant ddisgrifio defodau fel bedydd yn gywir. Mae ymweliad â'r eglwys leol i gymryd rhan mewn seremoni fedyddio gyda'r ficer wedi bod o gymorth iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth ac i ddeall arwyddocâd yr arteffactau sydd yno.
187. Mae eu hymwybyddiaeth o werthoedd megis cyfeillgarwch a charedigrwydd at eraill yn datblygu'n dda. Gwerthfawrogant y pwysigrwydd o fod yn ddiolchgar ac maent wedi creu gweddïau syml eu hunain.
188. Maent yn deall pwysigrwydd y Beibl i Gristnogion a'r Torah i'r Iddewon. Gallant gymharu'r arteffactau sydd mewn synagog ac eglwys ac mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r grefydd Iddewig yn dda.
189. Yn CA2, datblygir ymhellach wybodaeth y disgyblion o'r Beibl a gallant adrodd ac ysgrifennu hanesion o'r Beibl. Wrth drafod nifer o wyrthiau a wnaed gan Iesu Grist, gallant egluro eu harwyddocâd i ni heddiw mewn modd aeddfed.
190. Mae'r disgyblion yn medru sôn yn estynedig am y prif wyliau Cristnogol. Gwyddant fod y Beibl yn llyfr cysegredig y Cristion a medrant sôn am nifer o'r cymeriadau y ceir eu hanesion yn y Testament Newydd a'r Hen Destament.
191. Yn dilyn gwaith ar y deg gorchymyn, mynega'r disgyblion farn dros gadw rheolau heddiw, a lluniwyd rhestr briodol o reolau dosbarth ganddynt. Maent yn ymwybodol o bwrpas gweddi ac erbyn B5 a B6, mae gan y disgyblion farn bendant ar faterion ysbrydol a moesol a gallant eu trafod yn hyderus.
192. Maent yn ymwybodol bod crefyddau heblaw Cristnogaeth yn cael eu harfer ar draws y byd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r hyn sy'n bwysig i Fwslemiaid ac Iddewon. Gallant drafod eu harteffactau a'u harferion, pwysigrwydd y Qur'an i Fwslemiaid a'r Torah i'r Iddewon a chymharant eu dulliau addoli gyda'r traddodiad Cristnogol.



## **Diffygion**

193. Ychydig o ymwybyddiaeth sydd gan y disgyblion o arweinyddion a phobl allweddol sy'n adlewyrchu dysgeidiaeth yr Iesu.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi ystyried canlyniadau'r arolygiad ac yn ystyried ei bod yn adlewyrchu gwaith yr ysgol yn deg. Mae barnau a sylwadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r rheini a wnaed gan yr ysgol.

Roedd yr arolygiad yn eang ei ystod ac fe'i nodweddwyd gan ymagwedd broffesiynol y tîm. Cymerwyd gofal i gyrraedd barn gytbwys a chytun, a threuliwyd amser yn ceisio tystiolaeth bellach, ac i gadarnhau barnau lle bu hynny'n angenrheidiol.

Cydnabu'r arolygiad elfennau cadarnhaol agwedd, ymddygiad a chyfranogiad y disgyblion yn eu dysgu. Yn ogystal, nodir y systemau gofal a chynhaliath sy'n tanategu ein darpariaeth gwricwlaidd. Cydnabyddir medrau ac ymroddiad ein hathrawon a thalent staff cynhaliol yn briodol.

Mae'r ffocws ar safonau a chyrhaeddiad yn glir yn y meysydd rheini lle'r ydym yn llwyddo a'r rheini sydd angen sylw. Ymhlith rhai o'r agweddau a nodwyd mae medrau allweddol, cyfeirio'n ehangach ar gyfer data meincnodi a thynhau gweithdrefnau, ac mae'r rhain yn rhai yr ydym yn hyderus y gallwn fynd i'r afael â nhw. Roeddem yn falch o weld bod yr arolygwyr wedi nodi nifer o elfennau a gweithdrefnau yn yr ysgol a fydd yn ein helpu ni i fynd i'r afael â rhai diffygion trwy rannu arfer dda yn ehangach.

Bydd staff a llywodraethwyr yn sicrhau y byddwn yn deilio â'r argymhellion o fewn y flwyddyn addysgol gyfredol, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r her yn un amrywiol: i arweinwyr pwnc, i uwch reolwyr, i gyfranogiad yr ysgol gyfan ac i staff sy'n gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr.

Yn Ysgol Amlwch, Rydym yn falch o'n plant ac yn falch o'r hyn y gallwn ni ei gyflawni mewn sawl maes. Rydym yn cydnabod mai dim ond trwy adolygu a myfyrio rheolaidd, gan geisio cyflawni targedau heriol, y gallwn ddiogelu'r hyn sydd orau i'n disgyblion. Trwy hunan arfarnu, rydym wedi ceisio cael darlun gwrthrychol o'n hysgol. Mae'r arolygiad wedi cyfrannu'n sylweddol at adnabod ein cryfderau a nodi meysydd clir ar gyfer gwelliant a datblygiad pellach.

## Atodiad A

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Amlwch
Math o ysgol	Cymunedol, naturiol ddwyieithog
Ystod oedran y disgyblion	3 – 11 oed
Cyfeiriad yr ysgol	Pen Y Bonc, Amlwch, Ynys Môn.
Cod post	LL68 9DY
Rhif ffôn	01407 830414
Pennaeth	Mr Peter Thomas
Dyddiad penodi	Medi 1996
Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol	Mrs Diane Prince
Arolygydd Cofrestredig	Wil Williams
Dyddiadau'r arolygiad	7 – 10 Chwefror 2005

## Atodiad B

### Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	15	32	38	47	37	42	48	47	306

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	14	2	15.2

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	23:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	8:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	10:1
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	23
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.1:1

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad				
Tymor	D	CA1	CA2	Ysgol Gyfan
Gwanwyn 2004	92%	94.3%	91.85%	92.1%
Haf 2004	92.8%	91.75%	92.25%	91.6%
Hydref 2004	91.4%	93.65%	93.35%	92.5%

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	19%
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

## Atodiad C

### Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004			Nifer y disgyblion yn B2					37
Canran y disgyblion ar bob lefel								
			D	W	1	2	3	4
Cymraeg	Asesiad	Ysgol	0	0	10.8	83.8	5.4	
	Athro	Cenedlaethol	0.5	1.5	10	63.4	24.5	
Mathemateg	Asesiad	Ysgol	0	0	13.5	73	13.5	
	Athro	Cenedlaethol	0.3	2.2	10.5	62.5	24.4	
Gwyddoniaeth	Asesiad	Ysgol	0	0	8.1	62.2	29.7	
	Athro	Cenedlaethol	0.3	1.6	9.5	65.2	23.4	

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	78.4	Yng Nghymru	80.1

### Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004				Nifer y disgyblion yn B6						30			
Canran y disgyblion ar bob lefel													
				D	A	F	W	1	2	3	4	5	6
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol		6.4	0	4.3	0	0	4.3	31.9	31.9	27.7	
		Cenedlaethol		0	0	0	0	1	6	17	46	30	
	Prawf/Tasg	Ysgol		6.4	0	4.3	0	0	4.3	31.9	31.9	27.7	
		Cenedlaethol		0	2	1	0	0	5	12	41	38	
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol		6.4	2	0	0	0	0	4.3	82.6	13	
		Cenedlaethol		1	0	0	0	1	4	19	50	23	
	Prawf/Tasg	Ysgol		6.4	2	0	0	0	0	4.3	82.6	13	
		Cenedlaethol		1	2	0	1	0	3	18	51	24	
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol		6.4	0	0	0	0	0	21.3	46.8	31.9	
		Cenedlaethol		0	0	0	0	1	4	19	47	28	
	Prawf/Tasg	Ysgol		6.4	0	0	0	0	0	21.3	46.8	31.9	
		Cenedlaethol		0	5	1	1	0	4	19	43	30	
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol		6.4	0	0	0	0	0	6.4	68.1	25.5	
		Cenedlaethol		0	0	0	0	0	2	13	50	33	
	Prawf/Tasg	Ysgol		6.4	0	0	0	0	0	6.4	68.1	25.5	
		Cenedlaethol		0	2	0	0	0	1	10	47	38	

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiath)			
yn ôl Asesiad Athro		yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	60%	Yn yr ysgol	77.1%
Yng Nghymru	70%	Yng Nghymru	71%

D	Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A	Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F	Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W	Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad Ch

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygodd y tîm o bedwar o arolygwyr waith ym mhob dosbarth. Rhyngddynt buont ddeuddeng niwrnod llawn yn yr ysgol;
- cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda llywodraethwyr, staff a rhieni;
- archwiliwyd ystod o ddogfennaeth a gynhyrchwyd gan yr ysgol, gan gynnwys enghreifftiau o waith y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y blynyddoedd cynnar a'r ddau gyfnod allweddol;
- arsylwyd ar 38 o wersi neu sesiynau;
- mynychwyd y gwasanaethau boreol;
- gwrandawyd ar ddisgyblion yn darllen ac fe'u holwyd ynghylch eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm;
- arolygwyd cofrestrau'r ysgol;
- cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a staff yr ysgol yn ymwneud â materion rheolaethol a chwricwlaidd;
- archwiliwyd cofnodion cyfarfodydd y llywodraethwyr ynghyd â dogfennau sy'n gysylltiedig â materion ariannol yr ysgol;
- arsylwyd ar y disgyblion wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol, ac yn ystod amser egwyl;
- roedd 11 rhiant yn bresennol yn y cyfarfod cyn-arolygiad a dychwelwyd 61 o holiaduron;
- cynhaliwyd cyfarfod ar ôl yr arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

## Atodiad D

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Enw	Rôl	Adrannau'r adroddiad	Pynciau
Wil Williams	Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb ac argymhellion Cwestiynau allweddol 1, 5, 6	mathemateg, dylunio a thechnoleg
Gwennan Williams	Arolygydd Tîm	Cwestiynau allweddol 2,3, a 4	Blynyddoedd Cynnar, Cymraeg, Addysg grefyddol
Gwyn Roberts	Arolygydd Tîm	Cwestiwn allweddol 7	Hanes
Wil Owen	Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau at gwestiynau allweddol 1,3, 4 a 7	

**Contractwr:** Arolygiadau Deheubarth Inspections; Afallon; Heol Llandeilo; Gorslas; Llanelli; SA14 7LU.

### Cydnabyddiaeth

**Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwртеisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.**

# ADRODDIAD CRYNO

## AR YR AROLYGIAD O YSGOL GYNRADD AMLWCH

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr Adroddiad. Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol roi copïau o'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Hwyrach y caiff ffi heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ei chodi ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Amlwch fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Y diben yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg sy'n cael ei gynnig a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Mae'r arolygiad o'r holl ysgolion o fewn cylch chwe blynedd hefyd wedi'i gynllunio i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn. Caiff copi o'r crynodeb hwn ei anfon at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. **Gellir cael copi o'r adroddiad llawn gan yr ysgol.**

Cynhaliwyd arolygiad Ysgol Amlwch rhwng 7-10 Chwefror 2005. Cynhaliodd tîm annibynnol o arolygwyr, a arweiniwyd gan Mr Wil Williams yr arolygiad. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond sydd wedi'i ariannu ganddo.

Roedd angen i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion, ansawdd yr addysg sy'n cael ei gynnig gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, a'r cyfraniad a wnaed gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Mae'r raddfa bum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn, fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion eithriadol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da'n gorbwyso diffygion.
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig.
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Dengys tystiolaeth yr arolygiad bu'r ysgol yn rhy geidwadol wrth ddyfarnu gradd 2 iddi ei hun yng nghwestiynau allweddol 4 a 7. Dyfarnwyd gradd 1 i'r ddau gwestiwn gan y tîm arolygu.

## Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd yr arolygiad
Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	1
Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

## Safonau

Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
6%	73%	21%	0%	0%

Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru [LICC] ar gyfer Cymru gyfan o 95% o wersi yn foddhaol neu'n well a 75% yn dda neu'n well.

Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Meysydd dysgu	Meithrin	Derbyn
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 3	Gradd 3
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2	Gradd 2

Yng Nghyfnod Allweddol 1 (CA1) a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

<b>Pynciau</b>	<b>CA1</b>	<b>CA2</b>
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 1	Gradd 1
Hanes	Gradd 1	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd da yn y medrau allweddol o siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu a defnyddio eu medrau rhifedd. Gwnânt gynnydd rhagorol yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol mewn darllen Cymraeg a rhifedd yn radd 2. Mae safonau ysgrifennu yn radd 2 yn CA1 ac yn radd 3 yn CA2. Mae safonau siarad a gwrando Cymraeg yn radd 3 yn y ddau gyfnod allweddol. Mae safonau'r medrau allweddol Saesneg yn CA2 yn radd 2 yn yr holl foddau iaith. Mae'r safonau a gyflawnir mewn TGCh yn y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda nifer o nodweddion rhagorol i'r gwaith.

Mae datblygiad llwyddiannus medrau dwyieithog y disgyblion yn un o brif amcanion yr ysgol. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos cynnydd da iawn gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff dwyieithrwydd, ac yn arbennig datblygiad y Gymraeg, ei integreiddio'n effeithiol o fewn holl agweddau ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol.

Mae llwyddiant yr ysgol i sicrhau fod disgyblion o bob cefndir cymdeithasol a ieithyddol yn cyrraedd eu potensial yn un o'i nodweddion rhagorol. Darperir cefnogaeth dda i ddisgyblion o'r holl ystod allu.

Ar ddiwedd CA1, yn 2004, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol [CC], sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y Gymraeg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r ysgol mewn mathemateg yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn CA2, yn 2004 a 2003, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y CC, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r Saesneg yn sylweddol is na'r perfformiad cenedlaethol yn 2004.

Mae'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) tuag at gyrraedd y targedau a osodir iddynt yn eu Cynlluniau Addysg Unigol [CAU], yn dda.



Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gwaith sydd dan sylw. Er bod y disgyblion mwyaf aeddfed yn gallu nodi'r hyn sydd angen i'w wneud i wella eu gwaith, nid yw gallu'r mwyafrif o'r disgyblion i bwysu a mesur eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gweithio'n galed yn y gwersi ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol.

Pan gânt gyfleoedd, gall disgyblion CA1 a CA2 weithio'n annibynnol gan drefnu'u gwaith eu hunain a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r camau nesaf i'w cymeryd yn y dysgu.

Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol.

Dengys y disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae safonau ymddygiad drwy'r ysgol yn rhagorol. Caiff yr agwedd gyfrifol hon effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wnânt.

Mae parch disgyblion tuag at amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill yn datblygu'n briodol. Mae eu dealltwriaeth o faterion cyfleoedd cyfartal yn dda.

Roedd cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad yn 92%. Mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
6%	73%	21%	0%	0%

Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn uwch na thargedau LICC ar gyfer Cymru gyfan o 95% o wersi yn foddhaol neu'n well a 75% yn dda neu'n well.

Mae gan athrawon wybodaeth dda o'r pynciau y maent yn eu haddysgu ac o'r Canlyniadau Dymunol ar Gyfer Dysgu Plant dan bump oed. Mae'r berthynas dda sydd rhwng athrawon a disgyblion yn cyfrannu tuag at greu awyrgylch gwaith pwrpasol. Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd, caiff ei farcio'n gydwysbodol ac mae'n hybu'r broses o godi safonau.

Mae nodweddion rhagorol i'r addysgu yn cynnwys:

- Defnydd effeithiol o ystod eang o adnoddau, gan gynnwys adnoddau TGCh.
- Profiadau ysgogus sy'n cynnal diddordeb y disgyblion.
- Rheolaeth dosbarth effeithiol.
- Holi medrus a thasgau heriol.

- Strategaethau effeithiol ar gyfer meithrin hyfedredd dwyieithog y disgyblion.

Mae nodweddion da i'r addysgu yn cynnwys:

- Defnydd o ystod briodol o strategaethau addysgu ac adnoddau.
- Cyfarwyddiadau a nodau clir.
- Cyd-gynllunio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion dysgu.
- Amrywiaeth o drefniadaethau dosbarth.
- Defnydd pwrpasol o adnoddau.
- Cyflymdra priodol i'r gwersi.

Mae'r diffygion cyffredin yn y gwersi gradd 3 yn cynnwys:

- Cyflwyniadau rhy faith sy'n arwain at ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu tasgau.
- Diffyg cyfleoedd i'r disgyblion weithio'n annibynnol a gwneud penderfyniadau am eu dysgu.
- Aneglurder ynglŷn â'r cyfrwng addysgu a dysgu.

Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd yn radd 2. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n fanwl a chedwir cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau disgyblion yn y pynciau craidd a'r pynciau sylfaen. Mae'r targedau gwella a bennir ar gyfer pob disgybl yn arwain at gynnydd yn ystod y flwyddyn ysgol a'r cyfnod allweddol. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni am gynnydd eu plant o ansawdd dda.

Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn rhagorol. Mae disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r athrawon. Mae ethos gofalggar a chynnes ym mhob dosbarth; perchir barn a theimladau pob unigolyn ac mae disgyblion yn teimlo'n gryf eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae perthynas dda gyda'r rhieni ac adlewyrchir hyn yn yr ymatebion cadarnhaol gan fwyafrif helaeth y rhieni yn y cyfarfod cyn-arolygiad, a'r holiaduron cyn-arolygiad.

Mae cysylltiadau da rhwng y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r byd gwaith. Trwy eu hymwneud â nifer o fentrau lle maent yn prisio a gwerthu, mae'r disgyblion hynaf yn cynyddu eu dealltwriaeth o fyd busnes.

Mae'r trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn hyderus wrth newid ysgol.

Rhoddir sylw cyson ac addas i les personol disgyblion ac i faterion iechyd a diogelwch. Mae trefniadau da ar gyfer sicrhau diogelwch y disgyblion tra byddant yn yr ysgol ac i fonitro presenoldeb a phrydlondeb.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac yn galluogi pob disgybl i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion ag anghenion dwys o fewn y dosbarthiadau ac yn arbennig gan y staff cefnogol, yn sicrhau nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Mae cydweithio da rhwng yr ysgol â'r rhieni ac asiantaethau allanol wrth fodloni anghenion penodol disgyblion ag AAA.

Mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion. Hyrwyddir cydraddoldeb rhyw a meithrinnir agweddau cadarnhaol tuag at hiliau eraill. Gwna'r disgyblion o grwpiau ethnig eraill gyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r strategaethau a weithredir yn y dosbarthiadau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu hunanddisgyblaeth disgyblion, yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad ni welwyd unrhyw dystiolaeth o fwlio nag o ymddygiad gormesol neu boenydio disgyblion eraill.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth, y corff llywodraethu a'r athrawon yn darparu arweiniad eglur i ddatblygiad yr ysgol. Mae arweiniad cadarnhaol y pennaeth yn cydlynu ymdrechion y tîm dysgu'n fedrus iawn gan roi ymdeimlad o bwrpas cyffredin i'w gwaith.

Mae staff hŷn sydd â rolau arweinyddiaeth a rheolaeth, yn cyfrannu'n effeithiol i wella safonau ac ansawdd ac i ddatblygiad yr ysgol yn gyffredinol. Cyflawna'r staff addysgu eu cyfrifoldebau addysgu yn llawn, ond ni ddynodwyd cyfrifoldebau cwricwlaidd i bob un ohonynt.

Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'u rôl. Adnabyddant yr ysgol yn dda ac yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymgymryd â'u cyfrifoldebau monitro ac arfarnu. Hyd yma, nid yw'r agwedd hon ar eu gwaith wedi'i datblygu i'w llawn botensial.

Mae gan y pennaeth a'r cydlynwyr pwnc wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol. Mae elfennau arfarnol amlwg ym mhob agwedd o waith hunan arfarnu'r ysgol a rhoddir ffocws penodol ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Adroddir yn anffurfiol yn unig i'r corff llywodraethu ar ddeilliannau'r hunan arfarniadau. Nid oes trefniadau pendant ychwaith ar gyfer cywain barn rhieni.

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol er bod diffyg manylder yn y dulliau gweithredu a gynhwysir o dan bob blaenoriaeth.

Mae'r athrawon yn hyddysg yn y meysydd a addysgir ganddynt a chyflawna'r staff cefnogi dysgu eu cyfrifoldebau'n dda gan wneud gyfraniad pwysig i ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniad.

Mae cyflenwad da o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob oedran. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o'r ystafell gyfrifiaduron a'r byrddau gwyn rhyngweithiol ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion, yn cyfrannu'n sylweddol at y radd 1 a gyflawnir yn y maes.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn cynnig gofod helaeth ar gyfer niferoedd y disgyblion. Maent yn cynnwys arddangosfeydd deniadol sy'n cyfrannu dda tuag at greu awyrgylch addysgu ddiddorol.

Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn goruchwyllo'r gyllideb yn ofalus. Defnyddir adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf wrth iddi fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad yr arolygwyr. Llwyddwyd i gynnal y safonau da mewn nifer o bynciau a gwnaed cynnydd da hefyd wrth godi safonau y plant dan bump oed. Gwelwyd gwelliant arwyddocaol yn y gweithdrefnau asesu, monitro ac arfarnu ac yn ansawdd y ddarpariaeth AAA. Er bod safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, erys llafaredd yn y ddau gyfnod allweddol ac ysgrifennu yn CA2, yn agweddau sydd angen mwy o sylw.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:

- A1 Barhau i ddatblygu strategaethau ar gyfer codi safonau yn y Gymraeg trwy roi sylw i'r diffygion a nodwyd.
- A2 Barhau i ddatblygu trefniadau hunan arfarnu'r ysgol trwy gryfhau rôl monitro ac arfarnu'r cydlynwyr pwnc a'r corff llywodraethu.
- A3 Anelu ar ragoriaeth ym mhob pwnc trwy adeiladu ar y safonau da a gyflawnwyd eisoes.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

**Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.**